**Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7 o'r gloch Nos Fawrth, 18fed o Chwefror 2020**

**Presennol:** Cyng. Sharon Wyn Parry (Cadeirydd)
Cyng. Celfyn Furlong
Cyng. Gwilym O. Jones
Cyng. Siân Enfys Jones
Cyng. Gordon Owen
Cyng. Einir Thomas

**1. Ymddiheuriadau:** Cyng. William Victor Owen, Beryl Salisbury a Dyfed Williams.

Adroddwyd fod y Cyng. Dyfed Williams wedi colli ei frawd yn ddiweddar ac roedd y Cynghorwyr a'r clerc eisiau cyfleu eu cydymdeimlad dwysaf ag ef a'i deulu.

**2. Datganiad o ddiddordeb: - dim.**

**3. Cofnodion cyfarfod 21 Ionawr 2020**

Derbyniwyd fod y cofnodion yn gywir - (Cynnig Cyng. Gwilym O. Jones, eilio Cyng.Celfyn Furlong.)

**4. Materion yn codi o'r cofnodion:**

1. Cae Chwarae - Cytunwyd i fynd ar drywydd unrhyw fuddion cymunedol sydd ar gael gan ddatblygwr y tai newydd ar Stad Treifan. Roedd y clerc i ofyn i Mr Trystan Evans am fwy o wybodaeth a'i wahodd i'r cyfarfod nesaf os oedd o ar gael. Roedd hi hefyd i gael dyfynbrisiau am dorri'r glaswellt.

2. Llwybrau - Roedd Cyng. Dyfed Williams wrthi yn adolygu y rhain.

3. Unrhyw faterion eraill sy'n codi o'r cofnodion

   Nodwyd nad oedd y twll yn y lon wrth y bont reilffordd ar Ffordd Cymyran wedi'i atgyweirio.

**5. Penderfyniadau Cynllunio: dim**

**6. Ceisiadau Cynllunio - dim**

**7. Gohebiaeth :**

1. Corff Gwarchod Iechyd yn Gofyn i Bobl siarad am wasanaethau Fasgwlaidd – Rhwng 1.30 a 3 o'r gloch prynhawn 28.2.2020 yng Nghanolfan Cymunedol Gwelfor, Ffordd Tudur, Caergybi - nodwyd.

2. Ymgynghoriad ar Drefniadau Archwilio yn y Dyfodol ar gyfer Cynghorau Cymunedol yng Nghymru - Bydd archwiliadau'r Cyngor Cymuned yn cael eu cynnal yn uniongyrchol gan staff Swyddfa Archwilio Cymru o 2020/21. Roeddent yn cynnig cyflwyno cylch tair blynedd o ddau archwiliad gweithdrefn

gyfyngedig ac yna archwiliad yn seiliedig ar drafodiadau a gwahoddwyd cynghorau i roi sylwadau ar y cynigion.

3. Cynhadledd 3-6yh 10.3.2020 Gwesty Bae Trearddur – pynciau i'w cynnwys: datblygu lleoedd chwarae, grantiau ac adnoddau lleol, datblygu cymunedol, anghenion a hawliau plant / pobl ifanc i chwarae ac ati.

4. Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru - cyfrifon wedi cael barn amodol mewn traean o'r cynghorau tref a chymuned – nodwyd.

5. Cais Rhyddid Gwybodaeth - cais am gyfrifon y 5 mlynedd flaenorol, y cofnodion am y 12 mis blaenorol a chadarnhad bod y swyddog cyllid wedi cael gwiriad cofnod troseddol. Byddai'r clerc yn esbonio'r mesurau rheoli ariannol ac yn eu hysbysu bod y wybodaeth arall yr oeddent eu hangen arnynt ar gael ar y wefan.

**8. Materion Ariannol**

Cyflwynwyd a chadarnhawyd yr Adroddiad Ariannol hyd at 31 Ionawr 2020 ynghyd â Chysyniadau a Datganiadau Banc.

Yn y banc ar 31.1.2020 - Cyfrif Cyfredol £12,919.13, Cyfrif Cadw £3,934.67

**9. <u>Taliadau i'w gwneud</u>**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyflog (Ionawr.) | £474.18 | Un Llais Cymru | £241 |

**10. Rhoddion – cytunwyd i edrych ar rhain yn y cyfarfod nesaf.**

**11. Adroddiadau Cynghorwyr**

**Adroddiadau Cynghorwyr**

1. Roedd angen rhoi sylw i'r rheiliau ar Ffordd Minffordd a'r arwydd oedd wedi ei daro ar y gylchfan wrth gyffordd 4 yr A55.
2. Cafwyd adroddiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol a arweiniodd at ddifrod i gerbyd wrth Ddol Eithin.

**12. Cyfarfod Nesaf – 17eg o Fawrth 2020**

Llofnod……………………………………………Cadeirydd………………………….